I S - D D E D D F W R I A E T H C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 8

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pont Abraham i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro) 2026

*Gwnaed* *23 Ionawr 2026*

*Yn dod i rym* *2 Chwefror 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Pont Abraham i Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 2

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S U B O R D I N A T E L E G I S L A T I O N

# NWSI 2026 No. 8

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A48 Trunk Road (Pont Abraham to Carmarthen, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Right-hand Turns) Order 2026

*Made* *23 January 2026*

*Coming into force* *2 February 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A48 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A48 Trunk Road (Pont Abraham to Carmarthen, Carmarthenshire) (Temporary Prohibition of Right-hand Turns) Order 2026 and this Order comes into force on 2 February 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A48 London to Fishguard trunk road;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Chwefror 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde drwy'r bylchau yn y llain ganol ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Pont Abraham i Gylchfan Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Ionawr 2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 00:01 hours on 2 February 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, permit any vehicle to make a right-hand turn through the central reservation gaps in the length of the trunk road that extends from Pont Abraham Roundabout to Carmarthen Roundabout, Carmarthenshire.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 23 January 2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government